



08/03/21

*Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bwriad i ailagor ysgolion i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (Blynyddoedd 3 i 6) ar 15fed o Fawrth 2021. Hoffem eich hysbysu nawr o rai newidiadau angenrheidiol pellach i'n trefniadau arferol. Bydd yn rhaid gweithredu'r rhain i gydymffurfio â'r canllawiau gweithredol a ailgyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan yr holl staff addysgu hawl i amser cynllunio, paratoi ac asesu bob wythnos. Fel arfer, rydyn ni'n darparu hyn trwy ddefnyddio athrawon ychwanegol sy'n symud rhwng dosbarthiadau i ryddhau staff. O dan y canllawiau cyfredol, nid yw'n bosib gwneud hyn gan y byddai'r staff yma yn croesi sawl grŵp cyswllt. Er mwyn hwyluso'r amser rhyddhau hwn yn ddiogel, **bydd yr ysgol yn cau i ddisgyblion bob prynhawn dydd Gwener gan ddechrau ddydd Gwener 19eg Mawrth**. Bob prynhawn dydd Gwener, bydd yr ysgol yn dychwelyd i ddysgu o bell. Darperir gwaith ar gyfer pob dosbarth ar ein platfform dysgu ac yr ydych chi i gyd yn gyfarwydd ag ef erbyn hyn. (Bydd y trefniadau ar gyfer ein disgyblion Meithrin ychydig yn wahanol a byddwn yn rhannu'r rhain gyda chi ar wahân).

Byddwn yn parhau i ddarparu gofal plant i blant gweithwyr allweddol ar brynhawn dydd Gwener. Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio'r ddarpariaeth gofal plant a dim ond y rhai sy'n gymwys, ac sydd eisoes wedi bod yn mynychu, fydd yn cael eu derbyn.

Mae'r trefniant hwn bellach wedi'i weithredu gan lawer o ysgolion ar draws yr awdurdod.

Dyma'r amseroedd casglu ar ddydd Gwener bydd yn cychwyn ar y 19eg o Fawrth:

Teuluoedd 12:10yp

Disgyblion Cyfnod Sylfaen nad oes ganddynt frodyr a chwiorydd yn yr ysgol: 12:20yp

Cyfnod Allweddol 2 Disgyblion nad oes ganddynt frodyr a chwiorydd yn yr ysgol: 12:30yp

**BYDD Y RHAI SY'N GYMWYS AR GYFER CLUDIANT YSGOL YN CAEL EU CASGLU O'R YSGOL GAN Y BYSIAU AM 12:30yp.**

Cofion cynnes iawn i chi gyd.

*Yn gywir*

*Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*



08/03/21

*Dear Parent / Guardian / Pupil,*

The Welsh Government have announced that the second phase of reopening schools will see the return of Key Stage 2 (Years 3 to 6) pupils on the 15th March 2021. We would like to inform you now of some further necessary changes to our usual arrangements. These will have to be implemented to comply with the recently updated operational guidance issued by Welsh Government.

All teaching staff are entitled to planning, preparation, and assessment time each week. Usually we provide this by using additional teachers who move between classes to release staff. Under the current guidance it is not advisable to do this as these staff would be crossing several contact groups. To facilitate this release time safely, **the school will close to pupils every Friday afternoon starting on Friday 19th March**. Each Friday afternoon, the school will revert to distance learning and work will be provided for each class on our learning platform which you are all familiar with by now. (The arrangements for our Nursery pupils will be a little different and we will share these with you separately).

We will continue to provide childcare for critical worker children on a Friday afternoon. This childcare provision should only be used as a last resort and only those who are eligible, and have already been attending, will be able to access this.

This approach has now been implemented by many schools across the authority.

These are the collection times on a Friday commencing on the 19th March:

Families 12:10pm

Foundation Phase Pupils who do not have any siblings in the school: 12:20pm

Key Stage 2 Pupils who do not have any siblings in the school: 12:30pm

**THOSE ELIGIBLE FOR SCHOOL TRANSPORT WILL BE COLLECTED FROM THE SCHOOL BY THE BUSES AT 12:30pm**

As always, our very best wishes to you all.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân.*